

# PRESS RELEASE

## DATGANIAD I'R WASG



**September 30, 2020**

### **Music board warns of 'serious consequences' of Covid-19 for future of live music in Cardiff**

Cardiff Music Board has issued a warning of 'serious consequences' for the future of live music in Cardiff if additional funds are not made available by central Government.

The Music Board, which was set up in partnership with Sound Diplomacy, the global leaders of the music city movement, in the wake of the Save Womanby Street campaign, is made up of representatives from across the music sector.

Chair of the Cardiff Music Board, Cardiff Council Leader, Cllr Huw Thomas said: "While we appreciate the support already provided by Welsh Government, the scale of the issues facing the live music sector are massive. Venues are willing to play their part in stopping the spread of Covid-19 but with live music events still not permitted in Wales, new rules limiting opening hours and the forthcoming end to the UK Government furlough scheme there is a very real risk some live music venues, and the jobs they support could disappear, with serious consequences for the city's economy, opportunities for talent, and for future of live music in Cardiff."

"It's really important to emphasise that this is not just about culture or entertainment – of course that's important in its own right, but this goes even wider than that - prior to lockdown live music created 70% of the jobs, and £45.6 million of the income in the music sector in Cardiff. This is about real jobs, real people and real economic impact."

"Today, as Cardiff City Hall is lit red in solidarity with the live events industry, Cardiff Music Board is calling on the UK Government to provide the vital financial support the live music sector needs to survive."

Music Board Member, and Cardiff Council Cabinet Member for Culture and Leisure, Cllr Peter Bradbury said: "With exciting plans for the development of a music signature event for Cardiff, and work being carried out in a whole range of areas, from music friendly regulations to talent

development and infrastructure projects, progress towards our long-term goal of integrating music into every aspect of the city's structure has been made. That work continues, but through no fault of their own, the city's music venues and the thousands of people in Cardiff whose livelihoods depend on them are suffering. If we want music to be part of our future, further support is now urgently needed."

As a member of the Cardiff Music Board, and Chief Executive of iconic Womanby Street venue Clwb Ifor Bach, Guto Brychan has first-hand experience of the impact that Covid-19 restrictions are having on the live music industry. He said: "Since the beginning of lockdown we have been unable to trade. Live music and club events - our core activities - are not allowed and currently there is no indication of when they might resume.

"We tried opening as a pub once the restrictions were relaxed but the imposition of the 10pm curfew on the hospitality industry made it impossible to continue without losing more money."

"Ours was a viable industry before lockdown, one that made a substantial contribution to the UK economy. It will be again when this crisis is over - we just need adequate support to survive in the interim.

"Without it we risk irreparable damage to our cultural landscape; tens of thousands of jobs will be lost, artists and performers will leave the industry and we will lose the venues and festivals that have staged our events for generations."

Cllr Thomas added: "We believe that if more support is offered through this tough period, the live music sector can continue to grow and thrive in Cardiff. That's what we want to see – that's what the Music Board as a whole want to see and I hope the industry voices we on the Music Board are hearing loud and clear are also being heard elsewhere."

Under the Welsh Government's Cultural Recovery Fund, music venues; recording and rehearsal studios; Heritage organisations and historic attractions; accredited museums and archive services; libraries; events and their technical support suppliers; independent cinemas and the publishing sector have already been able to bid for a share of £18.5 million. In addition to this Freelancers working in the cultural and creative sectors in Wales will be able to apply for their share of a £7m fund which opens on Monday.

The Welsh Government allocated more than £400,000 of funding to 22 grassroots music businesses across Wales. Further details are available here - <https://gov.wales/support-grassroots-music-venues-wales>

(ends)

**Cardiff Council Media Advisor David Harris Tel: 029 2087 2409**

**Email: [davidharris@cardiff.gov.uk](mailto:davidharris@cardiff.gov.uk)**

NOTES TO EDITORS:

For bids to interview Cllr Thomas, Cllr Bradbury or Guto Brychan, please contact:

[Jeremy.Rhys@cardiff.gov.uk](mailto:Jeremy.Rhys@cardiff.gov.uk)

**Mae'r Bwrdd Cerddoriaeth yn rhybuddio am 'ganlyniadau difrifol' i ddyfodol cerddoriaeth fyw yng Nghaerdydd yn sgil Covid-19**

Mae Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd wedi cyhoeddi rhybudd o 'ganlyniadau difrifol' i ddyfodol cerddoriaeth fyw yng Nghaerdydd os na cheir arian ychwanegol gan y Llywodraeth ganolog.

Mae'r Bwrdd Cerddoriaeth, a sefydlwyd mewn partneriaeth â Sound Diplomacy, arweinwyr bydeang y mudiad dinas gerddoriaeth, yn sgil ymgyrch Achub Stryd Womanby, yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r sector cerddoriaeth.

Dywedodd Cadeirydd Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd, ac Arweinydd Cyngor Caerdydd, y Cynghorydd Huw Thomas: "Er ein bod yn gwerthfawrogi'r cymorth mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi'i roi, mae graddfa'r heriau sy'n wynebu'r sector cerddoriaeth fyw yn enfawr. Mae lleoliadau'n barod i chwarae eu rhan i atal lledaeniad Covid-19 ond gyda digwyddiadau cerddoriaeth fyw yn dal wedi eu gwahardd yng Nghymru, a chyda rheolau newydd sy'n cyfyngu ar oriau agor, a chynllun ffyrlo llywodraeth y DU yn dirwyn i ben, mae perygl gwirioneddol y gallai rhai lleoliadau cerddoriaeth fyw, a'r swyddi y maent yn eu cefnogi ddiflannu, gyda chanlyniadau difrifol i economi'r ddinas, cyfleoedd i dalent, a dyfodol cerddoriaeth fyw yng Nghaerdydd."

"Mae'n bwysig iawn pwysleisio nad yw hyn yn ymwneud â diwylliant neu adloniant yn unig – wrth gwrs mae hynny'n bwysig ynddo'i hun, ond mae hyn yn mynd hyd yn oed yn ehangach na hynny - cyn y cyfnod cloi, roedd cerddoriaeth fyw yn gyfrifol am 70% o swyddi'r sector

cerddoriaeth yng Nghaerdydd a £45.6 miliwn o'r incwm. Rydyn ni'n sôn am swyddi go iawn, pobl go iawn ac effaith economaidd go iawn."

"Heddiw, gan fod Neuadd y Ddinas Caerdydd wedi'i goleuo'n goch mewn undod â'r diwydiant digwyddiadau byw, mae Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd yn galw ar Lywodraeth y DU i ddarparu'r cymorth ariannol hanfodol sydd ei angen ar y sector cerddoriaeth fyw i oroesi."

Dywedodd Aelod o'r Bwrdd Cerddoriaeth, ac Aelod Cabinet Cyngor Caerdydd dros Ddiwylliant a Hamdden, y Cynghorydd Peter Bradbury: "Gyda chynlluniau cyffrous ar gyfer datblygu digwyddiad cerddoriaeth unigryw i Gaerdydd, a gwaith yn cael ei wneud mewn ystod eang o feysydd, o reoliadau sy'n ystyriol o gerddoriaeth i ddatblygu talent a phrojectau seilwaith, mae cynnydd tuag at ein nod hirdymor o integreiddio cerddoriaeth ym mhob agwedd ar strwythur y ddinas wedi'i wneud. Mae'r gwaith hwnnw'n parhau, ond heb fod unrhyw fai arnynt hwy eu hunain, mae lleoliadau cerddoriaeth y ddinas a'r miloedd o bobl yng Nghaerdydd y mae eu bywoliaeth yn dibynnu arnynt yn dioddef. Os ydym am i gerddoriaeth fod yn rhan o'n dyfodol, mae angen cymorth pellach ar frys erbyn hyn."

Mae gan Guto Brychan, sy'n aelod o Fwrdd Cerddoriaeth Caerdydd, ac yn Brif Weithredwr lleoliad eiconig Clwb Ifor Bach yn Womanby Street, brofiad uniongyrchol o'r effaith y mae cyfyngiadau Covid-19 yn ei chael ar y diwydiant cerddoriaeth fyw. Dywedodd: "Dydym ni ddim wedi gallu masnachu ers dechrau'r cyfnod cloi. Nid yw cerddoriaeth fyw a digwyddiadau clwb nos - ein gweithgareddau craidd - yn cael eu caniatáu ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw arwydd pryd y gallent ailddechrau.

"Fe geision ni agor fel tafarn ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu llacio ond roedd gosod y cyrffiw o 10pm ar y diwydiant lletygarwch yn ei gwneud hi'n amhosibl i ni barhau heb golli mwy o arian."

"Roedd ein diwydiant ni'n ddiwydiant hyfyw cyn y cyfnod cloi, un a oedd yn cyfrannu'n sylweddol i economi'r DU. Ac mi fydd hi eto pan fydd yr argyfwng hwn ar ben - dim ond cefnogaeth ddigonol sydd ei hangen arnom i oroesi yn y cyfamser.

"Hebdi, mae perygl o niwed na ellir mo'i adfer i'n tirwedd ddiwylliannol; bydd degau o filoedd o swyddi'n cael eu colli, bydd artistiaid a pherfformwyr yn gadael y diwydiant a byddwn yn colli'r lleoliadau a gwyliau sydd wedi cynnal ein digwyddiadau ers cenedlaethau."

Ychwanegodd y Cynghorydd Thomas: "Os cynigir mwy o gymorth drwy'r cyfnod anodd hwn, credwn y gall y sector cerddoriaeth fyw barhau i dyfu a ffynnu yng Nghaerdydd. Dyna'r hyn

rydym am ei weld – dyna beth mae'r Bwrdd Cerddoriaeth yn ei gyfanrwydd am ei weld ac rwy'n gobeithio bod lleisiau'r diwydiant, yr ydym ni ar y Bwrdd Cerddoriaeth yn eu clywed yn uchel ac yn glir, hefyd yn cael eu clywed mewn mannau eraill."

Dan Gronfa Adferiad Diwylliannol Llywodraeth Cymru, bu modd eisoes i leoliadau cerddoriaeth; stiwdios recordio ac ymarfer; sefydliadau treftadaeth ac atyniadau hanesyddol; amgueddfeydd achrededig a gwasanaethau archifau; llyfrgelloedd; digwyddiadau a'u cyflenwyr cymorth technegol; sinemâu annibynnol a'r sector cyhoeddi wneud cais am gyfran o gronfa £18.5 miliwn. Yn ogystal â hyn, bydd modd i weithwyr llawrydd sy'n gweithio yn y sectorau diwylliannol a chreadigol yng Nghymru wneud cais am gyfran o gronfa werth £7m fydd yn agor ddydd Llun.

Dyrannodd Llywodraeth Cymru dros £400,000 o arian i 22 busnes cerddoriaeth ar lawr gwlad drwy Gymru. Mae rhagor o fanylion ar gael yma: <https://llyw.cymru/cefnogaeth-i-leoliadau-lleol-cerddoriaeth-yng-nghymru>

**(diwedd)**

**Ymgynghorydd y Cyfryngau Cyngor Caerdydd David Harris Ffôn: 029 2087 2409**

**E-bost: [davidharris@caerdydd.gov.uk](mailto:davidharris@caerdydd.gov.uk)**

Nodiadau i olygyddion:

Am gynigion i gyfweld a'r Cynghorydd Thomas, y Cynghorydd Bradbury neu Guto Brychan, cysylltwch â: [Jeremy.Rhys@cardiff.gov.uk](mailto:Jeremy.Rhys@cardiff.gov.uk)